

y capel. Bu farw ei briod Elina ddwy flynedd yn ôl. Bu'n briod ffyddlon ac yn ewythr a ffrind cywir iawn, ac y mae llawer yn ei gofio yn gweithio yn Ysgol Pen y Bryn, Bethesda, lle bu'n ofalwr wedi'r blynyddoedd a dreuliodd yn y Chwarel. Bu'r aelod ffyddlon mewn mwy nag un capel yn y Dyffryn cyn iddo ef a'i briod ymaelodi yng Ngharmel, lle bu'r un mor ffyddlon yn y gwasanaethau cyn i lesgedd ei rwystro. Bu farw ym Mhlas Ogwen, lle cawsai ofal arbennig y blynyddoedd diwethaf hyn. Anfonwn ein cofion a'n cydymdeimlad i'w deulu.

Mrs Olwen Owen

Cynhaliwyd angladd Mrs Olwen Owen, 15 Stryd Siarlott, Llanberis yn Capel Coch a Mynwent Nant Peris ddydd Iau, Awst 3. Bu farw yn Ysbyty Gwynedd ddydd Iau, Gorffennaf 27 yn 86 mlwydd oed. Gwasanaethwyd gan y Gweinidog, a'r organydd oedd Mrs Annette Bryn Pari. Cyflwynwyd teyrnged i'w mam yn gwasanaeth gan Rhian, a soniodd am ei gofal mawr am ei phlant ac am ei chariad at ei theulu cyfan. Yr oedd yn gymeriad hwyliog ac annwyl iawn, a chanddi lawer o ffrindiau ymhlith ei chymdogion a'i theulu ehangach. Cymdeimlwn â'i phlant, Gareth, Bryn a Rhian, a'r teulu cyfan yn eu profedigaeth.

Y mis nesaf - Deiniolen

Medi 10

5.00 p.m. - Mr John Roberts

Medi 17

5.00 p.m. - Mr Robert Morris

Medi 24

5.00 p.m. - Y Parchg Gwyndaf Jones

Hydref 1

3.30 p.m. - Y Gweinidog

Rhagor o newyddion

Bydd gweddill newyddion yr Ofalaeth am y mis diwethaf yn *Gronyn* yr wythnos nesaf.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Medi 10: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan Mr John Roberts, Llanfairpwll.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Medi 10: Gwasanaethir am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul yn ail ddechrau am 11.15 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Medi 10: Dim Oedfa.

CARMEL

Dydd Sul, Medi 10: Bydd yr Ysgol Sul yn ail ddechrau am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Geraint Roberts, Porthaethwy.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Medi 10: Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Y mis nesaf - Llanberis

Medi 10

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. — Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Medi 17

10.00 a.m. - Mr Norman Closs Parry
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Christopher Prew

Medi 24

10.30 a.m. - Oedfa Deulu



Yn y *Guardian* y darllenais yr erthygl am dranc criced yn India'r Gorllewin. Roedd gwŷr y Caribi newydd golli'r prawf cyntaf yn erbyn tîm Lloegr yn Birmingham yr wythnos o'r blaen. Nid colofnydd y *Guardian* oedd yr unig un i ysgrifennu'n huawdl am ddifflaniad India'r Gorllewin o reng flaen timau criced y byd wedi'r cweir a gafwyd gan sêr Lloegr. Roedd pob sylwebydd yn gytûn fod y tîm hwn o gricedwyr ifainc ymhlith y gwaethaf o'r prif dimau rhyngwladol ar hyn o bryd, heb unrhyw obaith o fedru cystadlu â mawrion presennol y gamp fel Lloegr ac India. Yn ôl yr erthygl honno, ac yn ôl y gwybodusion i gyd, roedd cricedwyr India'r Gorllewin yn destun gwawd ac yn annheilwng o gael eu cysylltu â'r meistri a fu'n cynrychioli'r nysoedd dros y blynyddoedd.

Rhyfedd o fyd. O fewn deng niwrnod, roedd y tîm cwbl anobeithiol hwn wedi ennill yr ail gêm brawf a chwaraewyd yn Leeds. Bydd y trydydd prawf, a'r olaf, yn cychwyn ddydd Iau; ond beth bynnag a ddigwydd yn hwnnw, mae chwaraewyr ifainc India'r Gorllewin wedi adfer eu hunan-barch ac wedi tawelu eu beirniaid, am y tro o leiaf. Nid dyma'r tro cyntaf i beth o'r fath ddigwydd ym myd chwaraeon wrth gwrs, gan fod yna lu o enghreifftiau o dimau ac unigolion yn llwyddo pan oedd pawb yn disgwyl iddyn nhw wneud llanast o bethau.

Ond ni all y trobwyntiau mwyaf a welwn ym myd chwaraeon gymharu

Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 738: 03 Medi, 2017

Anobeithiol?

â'r cyfnewidiadau y mae Duw yn eu gwneud ym mywydau unigolion ac ym mywyd ei Eglwys. Efengyl sy'n dod â gobaith i'r anobeithiol a gyflwynir yn y Beibl. Heb Iesu Grist, mae'n fwy anobeithiol arnom ni nag ydyw ar yr athletwr salaf mewn unrhyw ras neu'r tîm gwannaf mewn unrhyw ornest. Y mae ein beiau mor amlwg. Oherwydd nid â Christnogion gloyw y cawn ein cymharu, na hyd yn oed â'r bobl orau a welwn o'n cwmpas heddiw, ond â Christ ei hun. Ynddo ef y gwelwn ni'r safon y mae Duw yn ei cheisio ynom ninnau, a chan mai perfffeithrwydd – a dim llai na hynny – yw'r safon honno, mae'n amlwg nad oes yr un ohonom yn dod yn agos at ei fodloni.

Rhyfeddod yr Efengyl yw bod y cyfan wedi ei newid trwy yr Arglwydd Iesu Grist. Yr oedd yn anobeithiol arnom. Yr oedd yn amhosibl i'r un ohonom blesio Duw. Yr oeddem yn haeddu cael ein gwrthod ganddo. Ond y mae'r cyfan wedi ei newid am fod Duw'n drugarog ac yn benderfynol o wneud yr amhosibl yn bosibl.

Trwy farwolaeth Iesu Grist ar Galfaria, mae'r gwrthodedig wedi ei dderbyn, a'r aflan wedi ei wneud yn lân. Mae'r cyfan sy'n ein rhwystro rhag dod at Dduw wedi ei ddileu. I bob pwrpas, mae Iesu Grist wedi cyfnewid lle â ni. Ar y groes, roedd o'n ysgwyddo'r bai am ein holl bechodau ni. Ac oherwydd iddo wneud hynny, yr ydym ni'n cael ein cyfrif yn gwbl ddi-fai. Ydi, y mae'r amhosibl yn bosibl.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm



'Ynot ti, ARGLWYDD, y
ceisiais loches; na fydded
cywilydd arnaf byth. Yn dy
gyfiawnder gwared ac achub fi, tro dy
glust ataf ac arbed fi. Bydd yn graig
noddfa i mi, yn amddiffynfa i'm cadw,
oherwydd ti yw fy nghraig a'm ham-
ddiffynfa. O fy Nuw, gwared fi o law'r
drygionus, o afael yr anghyfiawn a'r
creulon. Oherwydd ti, Arglwydd, yw fy
ngobaith, fy ymddiriedaeth o'm
hieuenctid, O ARGLWYDD'
(Salm 71:1-5).

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00
o'r gloch gsn Mr Huw Tegid Roberts,
Llangefni.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 3.30 o'r
gloch gan y Gweinidog.

Gwasanaethir yn Llanllechid am 5.00 o'r
gloch gan y Gweinidog.

Gwasanaethir yn Nhalybont am 2.00 o'r

gloch gan y Parchg Euros Wyn Jones,
Llangefni.

Gwasanaethir yn Nant Peris am 2.00 o'r
gloch gan y Gweinidog.

Cofion

Anfonwn ein cofion at bawb sydd heb
fod yn dda, ac yn arbennig at bawb sy'n
methu â dod i'r oedfa ar hyn o bryd.

Gweithiwr Newydd Cynllun Efe

Newyddion da! Mae Cynllun Efe wedi
penodi Gweithiwr newydd. Bydd Catrin
Ruth Hampton yn cychwyn ei swydd
newydd fel Gweithiwr Plant, Ieuenctid a
Theuluoedd Efe yr wythnos hon.

Mae hon yn swydd lawn amser mewn
cydweithrediad ag Eglwys y Bedyddwyr
yng Nghaersalem, Caernarfon a Scripture
Union. Bydd Catrin yn gwasanaethu'r
eglwys yng Nghaersalem am ddiwrnod a
hanner yr wythnos, a bydd diwrnod yr
wythnos yn cael ei neilltuo i genhadaeth
trwy chwaraeon dan nawdd Scripture
Union, gyda gweddill yr amser yn ardal
Efe. Rydym yn cydnabod arweiniad Duw
a chydweithrediad Caersalem a Scripture
Union sydd wedi'n galluogi i fentro'n
hyderus i benodi Catrin i'r swydd am y
tair blynedd nesaf. Edrychwn ymlaen at
gydweithio â hi ac â'n gilydd i ddatblygu

ymhellach y gwaith y bu Cynllun Efe yn
ei wneud yn yr ardal ers mis Hydref
2008.

Daw Catrin yn wreiddiol o Lansannan.
Mae ganddi brofiad o waith Cristnogol a
chenhadol trwy Goleg y Bala, Y Gorlan
yn yr Eisteddfod Genedlaethol a
LLANW, yn ogystal ag yn yr eglwys y
bu'n gysylltiedig â hwy. Mae wedi
gweithio fel nani ac fel gweinyddydd, a
hyd at yr wythnos ddiwethaf yr oedd yn
gweithio fel Cydlynnydd Iechyd a Llesiant
gyda Medrwn Môn. Mae'n croesawu'r
cyfle newydd hwn i wasanaethu'r eglwys
a Chynllun Efe yn enw yr Arglwydd
Iesu.

Mae'n briod â Corey ac yn byw yng
Nghaernarfon ers blwyddyn a hanner, ac
yn rhan o'r eglwys yng Nghaersalem ers
symud i'r Dre. Bwriedir cynnal Oedfa
Gomisiynu o fewn yr wythnosau nesaf.

Priodasau

Cynhaliwyd dwy briodas yng Nghapel
Carmel, Llanllechid dros yr haf.

Ddydd Sadwrn, Gorffennaf 29, priodwyd
Lois Evans a Mathew Nottingham.
Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Parchg
Dafydd Coetmor Williams.

Ddydd Sadwrn, Awst 19, priodwyd Rhia
Jones a Brynmor Thomas, ac yr oedd y
gwasanaeth yng ngofal y Gweinidog.

Dymunwn yn dda i'r ddau gwpl yn eu
bywyd priodasol.

Cystadlaethau Crefft Ysgol Sul Capel Coch

Ddydd Llun, Gorffennaf 24, cynhaliodd
yr Ysgol Sul brynhawn o Gystadlaethau
Crefft yn y Capel. Cafwyd cystadlaethau
amrywiol, yn cynnwys coginio, arlunio,
gwneud modelau a threfnu blodau, ar
gyfer plant, ieuenctid ac oedolion.

Roedd yr holl gynigion yn barod erbyn
canol dydd ar gyfer y beirniaid, Valerie,
Rhiannon a Sioned, a'r arddangosfa yn
agored i bawb wedyn o 2.00 o'r gloch
ymlaen. Cafwyd prynhawn difyr dros
ben, ac yr oedd pawb wedi mwynhau'r
diwrnod. Diolch am bob cefnogaeth, a
llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran.
Diolch yn arbennig i Marga Bee am y
syniad o gynnal y gystadlaethau ac am y
paratoadau manwl ar gyfer y dydd.

Diolch hefyd i'r beirniaid am eu gwaith,
ac i bawb arall a fu'n helpu i sicrhau
llwyddiant y dydd.

Oherwydd llwyddiant y prynhawn, mae
galw am drefnu digwyddiad arall tebyg!

Ffair Haf

Cynhaliwyd Ffair Haf yn Capel Coch
ddydd Mercher, Gorffennaf 26 er budd
'Apêl Corwynt Cariad', sef apêl Eglwys
Bresbyteraidd Cymru at waith Cymorth
Cristnogol ar Ynysoedd y Pilipinas
(Philippines). Gwnaed elw o £456.
Diolch yn fawr i bawb a fu'n gweithio i
baratoi'r Ffair ac i bawb a'i chefnogodd.

Pen-blwydd Hapus

Dathlodd Mrs Bet Jones, Y Berllan,
Llanberis ei phen-blwydd yn 90 oed ar
Awst 25. Llongyfarchiadau gwresog iddi
a dymuniadau gorau.

Angladdau

Mr Emyr Griffith

Bu farw Mr Emyr Frederick Griffith,
Plas Ogwen, Bethesda (gynt o Erw Fair,
Garneddwen, Bethesda) ar Orffennaf 22,
yn 96 mlwydd oed. Roedd ei angladd
yng nghapel Carmel ac ym Mynwent
Coetmor ddydd Gwener, Gorffennaf 28
dan arweiniad y Gweinidog a'r Parchg
Dafydd Coetmor Williams, a chafwyd
teyrnged gan ei nai. Mr Gareth Pritchard.
Mrs Helen Williams oedd yr organydd yn